
**15fed Cyfarfod Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru
Dydd Mercher, 24 Ionawr 2018
Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd
Cofnodion**

AELODAU

Llywodraeth Cymru

Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau
Cyhoeddus - Cadeirydd

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

Y Cyng. Anthony Hunt, Llefarydd Cyllid CLILC (Torfaen)
Y Cyng. Andrew Morgan, Llywydd CLILC (Rhondda Cynon Taf)
Y Cyng. Paul Miller (Sir Benfro)
Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)
Y Cyng. Dyfrig Lewis Siencyn (Gwynedd)

YN BRESENNOL

Swyddogion Llywodraeth Cymru

David Costa – Cynghorydd Arbennig
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol
Rob Hay – Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Cyllid Llywodraeth Leol

Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Steve Thomas – Prif Weithredwr, CLILC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLILC
Steve Jones – Cadeirydd, Cymdeithas Trysoryddion Cymru (Pennaeth Cyllid, Merthyr
Tudful)

Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Debbie Wilcox, Arweinydd CLILC (Casnewydd)
Y Cyng. Aaron Shotton, Dirprwy Arweinydd CLILC (Sir y Fflint)
Y Cyng. Peter Fox OBE (Sir Fynwy)
Y Gwir Anrh. Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

Eitem 1 ar yr Agenda: Croeso a chyflwyniadau

1. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (Ysgrifennydd y Cabinet) yr aelodau i 15fed cyfarfod yr Is-grŵp Cyllid.

Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion a Materion sy'n codi o'r Cyfarfod Blaenorol (Papur 1)

2. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir. Roedd y Cam Gweithredu o'r cyfarfod, sef y gwaith i'w wneud i edrych ar y pwysau allweddol ac ystyried sut i'w targedu'n benodol, yn cael ei weithredu drwy drafodaethau rhwng swyddogion.

Eitem 3 ar yr Agenda: Rhaglen Waith 2018 yr Is-grŵp Dosbarthu (Papur 2)

3. Amlinellodd swyddogion Llywodraeth Cymru y gweithgareddau tymor byr a'r tymor hwy a nodwyd yn y Rhaglen Waith. Mae'r gweithgareddau tymor hwy yn bwysig i sicrhau cynaliadwyedd y fformiwla dosbarthu ac i edrych a oes modd ei symleiddio.
4. Awgrymodd y Cyng. Anthony Hunt y dylai'r rhaglen waith ganolbwyntio ar rai o'r meysydd pwysicach.
5. Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet yr achos am fwy o symrlwydd yn y setliad gan ofyn am farn ar y blaenoriaethau tymor hwy.
6. **Cam gweithredu: Cytunodd Jon Rae i drafod ag aelodau llywodraeth leol yr Is-grŵp Cyllid a darparu ymateb.**
7. Dywedodd y Cyng. Morgan bod rhywfaint o ddryswch o ran y cyhoeddiad ynghylch y codiad o £20m i ddyraniad cyllideb 2019-20 ar gyfer llywodraeth leol a gofynnodd i Ysgrifennydd y Cabinet ysgrifennu ar y mater.
8. **Cam gweithredu: Ysgrifennydd y Cabinet i ysgrifennu at lywodraeth leol i egluro'r mater hwn.**

Eitem 4 ar yr Agenda: Goblygiadau Setliad Grant yr Heddlu 2017 ar gyfer Plismona yng Nghymru.

9. Nodwyd y papur.

Eitem 5 ar yr Agenda: Unrhyw Fater Arall

10. Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r aelodau a oedd ganddynt unrhyw fater arall i'w drafod.
11. Mynegodd y Cyng. Anthony Hunt ymddiheuriadau'r Cyng. Peter Fox gan y bu'n rhaid iddo fynychu mater teuluol.